Hawdd ei Ddeall

# Gwasanaeth Archwilydd Meddygol Cymru

## Gwybodaeth i bobl sydd wedi colli eu hanwyliaid

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

Mawrth 2024

# Am y llyfryn yma


Dyma lyfryn hawdd ei ddeall. Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 17**.

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn yma wedi cael ei ysgrifennu gan **Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaeth Archwilydd Meddygol Cymru Gyfan**.

Am ragor o wuybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaeth-archwilio-meddygol

**E-bost:** medicalexaminerservice@wales.nhs.uk




Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gwasanaeth Archwilio Meddygol Cymru - Gwybodaeth i'r rhai mewn Profedigaeth**'.

Gwnaeth Hawdd ei Ddeall Cymru y ddogfen hon yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**.
I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**

# Cynnwys


Beth ydy'r Gwasanaeth Archwilydd Meddygol .... 4

A fydd cynlluniau angladd yn cymryd mwy o amser .... 8

Ydy rhywun arall yn gallu siarad gyda ni ar eich rhan .... 9

Beth fyddwn ni yn ofyn i chi .... 10

Os nad ydych chi eisiau siarad gyda ni am eich pryderon .... 12

Beth i'w wneud os oes gennych chi bryderon am ein penderfyniadau neu am ein gwaith .... 14

Sut i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Archwilydd Meddygol .... 15

Cysylltiadau'r Gwasanaeth Archwilydd Meddygol .... 16

Geiriau Anodd .... 17

# Beth ydy'r Gwasanaeth Archwilydd Meddygol



Rydyn ni yn edrych i mewn i bob marwolaeth sydd ddim wedi cael eu harchwilio gan **grwner**.



Math o farnwr ydy **crwner** sydd yn ymchwilio i rai marwolaethau. Er enghraifft os ydy marwolaewth yn anarferol, yn dreisgar neu yn sydyn.



Mae'r **Gwasanaeth Archwilydd Meddygol** yn cynnwys **Archwilwyr Meddygol** a **Swyddogion Archwilydd Meddygol**.



Mae **Archwilwyr Meddygol** yn feddygon profiadol. Mae ganddyn nhw hyfforddiant arbennig i **graffu** ar sut me rhywun wedi marw. A beth sydd wedi digwydd cyn iddyn nhw farw.



Mae **craffu** yn meddwl edrych yn ofalus a manwl ar fanylion ac amgylchiadau'r farwolaeth.



Mae **Swyddogion Archwilydd Meddygol** yn cefnogi Archwilwyr Meddygol. Mae'n nhw'n goruchwylio pob achos. Ac yn casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i **graffu** ar farwolaeth.



Rydyn ni yn **annibynnol**. Dydyn ni ddim yn gweithio i'r bobl sydd wedi rhoi'r gofal i'r person sydd wedi marw.

Rydyn ni yn **craffu** ar farwolaethau i:



- Edrych ar y gofal mae pobl wedi ei gael cyn iddyn nhw farw. A gweld os oes unrhyw beth mae angen i ddarparwyr gofal ei newid neu ei wella.



- Dweud wrth ddarparwyr gofal neu'r crwner am bethau sydd angen eu hymchwilio ymhellach efallai.



- Gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth yn y **Dystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth** yn gywir. Dyma ddogfen gyfreithiol sydd yn dweud bod rhywun wedi marw.



- Cefnogi teuluoedd pobl sydd wedi marw. Rydyn ni'n gallu dweud beth ydy achos marwolaeth. A rhoi cyfle I deuluoedd ofyn cwestiynau.

Mae pob marwolaeth yn cael eu **craffu** yn yr un ffordd. Mae 3 rhan i'n gwaith:



- Rydyn ni yn edrych ar gofnodion meddygol.



- Rydyn ni'n siarad gyda'r meddyg oedd yn gofalu am y person cyn iddyn nhw farw.



- Rydyn ni'n siarad gyda theuluoedd y bobl sydd wedi marw.



**Mae gwrando yn rhan bwysig o'n gwaith.**
Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr eich bod chi yn cael cyfle i siarad am unrhywbeth sydd wedi eich poeni am farwolaeth ein anwyliaid.



Os oes angen fe fyddwn ni yn pasio eich pryderon ymlaen ar gyfer ymchwiliad pellach.


# A fydd cynlluniau angladd yn cymryd mwy o amser




Ddylai yna ddim bod unrhyw oedi.



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda chi i wneud yn siŵr eich bod yn gallu cario ymlaen gyda'ch cynlluniau angladd.



Efallai bydd y **Dystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth** yn cymryd ychydig yn hirach, Ond dim mwy na 1 neu 2 ddiwrnod.



Rydych chi'n dal i allu trefnu apwyntiadau gyda threfnwyr angladdau a'r Swyddfa Gofrestru ar yr adeg yma.

# Ydy rhywun arall yn gallu siarad gyda ni ar eich rhan



Ydy. Efallai y byddwn ni yn cysylltu gyda chi i ofyn pwy ydych chi eisiau i ni siarad gyda nhw.



Neu rydych chi'n gallu dweud wrth y tîm meddygol pwy rydych chi eisiau i ni gysylltu gyda nhw.



Fel arfer fe fyddwn ni yn cysylltu gyda chi ar y ffôn. Cyn i ni anfon y **Dystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth** i'r swyddfa gofrestru.




Rydyn ni'n gallu cysylltu gyda chi mewn ffordd wahanol os ydych chi eisiau. Rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda.

# Beth fyddwn ni yn ofyn i chi



Fe fyddwn ni yn dweud wrthych chi beth sydd wedi ei ysgrifennu ar y **Dystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth**.



Fe fyddwn ni yn gofyn i chi os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon am y dystysgrif.



Fe fyddwn ni yn siarad gyda chi am ein **craffu** i farwolaeth eich anwyliaid.



Byddwn yn gofyn a oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am farwolaeth eich anwylyd.



Efallai y byddwn ni yn gofyn I chi am beth oedd gwaith eich anwylyd. I weld os oedd gan y gwaith unrhyw beth i'w wneud gyda'u marwolaeth.



Rydych chi'n gallu gofyn unrhyw gwestiynau rydych chi eisiau am y farwolaeth. A siarad gyda ni am unrhyw beth sydd wedi eich poeni mewn unrhyw ffordd.

# Os nad ydych chi eisiau siarad gyda ni am eich pryderon



Rydyn ni yn eich cynghori'n gryf i siarad gyda ni am unrhyw bryderon sydd gennych chi am:

- marwolaeth eich anwylyd,
- neu'r gofal roedden nhw wedi ei gael cyn iddyn nhw farw.




Rydyn ni yma i wrando arnoch chi.



Rydyn ni yn gallu gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn gwybod am unrhyw broblemau er mwyn iddyn nhw allu gwella.



Efallai y byddwn ni yn gallu gwneud i chi deimlo yn well am eich pryderon, drwy siarad am bethau gyda chi.



Rydyn ni yn annibynnol. Dydyn ni ddim yn gweithio I’r bobl oedd yn rhoi gofal i’ch anwylyd.



Felly rydych chi’n gallu bod mor agored a gonest gyda ni ag rydych chi eisiau.

# Beth i'w wneud os oes gennych chi bryderon am ein penderfyniadau neu am ein gwaith



Os nad ydych chi yn hapus gyda'n penderfyniad, dywedwch wrth y **Swyddog Archwilydd Meddygol** sydd yn cysylltu gyda chi.



Maen nhw'n gallu gofyn i **Archwilydd Meddygol** arall edrych ar eich achos, os oes angen.



Os ydych chi ddim yn hapus o hyd, efallai y byddwn ni yn cyfeirio'r achos i'r **crwner**.



Os ydych chi eisiau rhoi adborth i ni, da neu ddrwg, rydych chi'n gallu anfon e-bost i ni: medicalexaminerservice@wales.nhs.uk

Fe fyddwn yn eich ateb o fewn 30 diwrnod.

# Sut i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Archwilydd Meddygol



Rydych chi'n gallu anfon e-bost at y **Gwasanaeth Archwilydd Meddygol** yn eich ardal. Mae'r manylion ar dudalen 16.



Neu rydych chi'n gallu gofyn i'r **gwasanaeth profedigaeth** gysylltu gyda nhw ar eich rhan.



Efallai y byddwn ni yn eich pasio ymlaen i wasanaeth arall, os ydyn ni'n teimlo eu bod nhw yn gallu delio yn well gyda'ch pryderon.




Ewch I'n gwefan am ragor o wybodaeth am sut i gysylltu gyda'r **Gwasanaeth Archwilydd Meddygol**.

# Cysylltiadau'r Gwasanaeth Archwilydd Meddygol

### Swyddfa Gogledd Cymru

Yn cynnwys ardal bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr

**E-bost:** NorthWales.MedicalExaminersOffice@wales.nhs.uk

**Ffôn**: 02921 500699

### Swyddfa Canolbarth a Gorllewin Cymru

Yn cynnwys ardaloedd bwrdd iechyd Hywel Dda a Bae Abertawe

**E-bost**: MidandWestWales.MedicalExaminersOffice@wales.nhs.uk

**Ffôn**: 02921 500499

### Swyddfa Ganolog De Cymru

Yn cynnwys ardaloedd bwrdd iechyd Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro

**E-bost**: SouthWalesCentral.MedicalExaminersOffice@wales.nhs.uk

**Ffôn:** 02921 500599

### Swyddfa De Ddwyrain Cymru

Yn cynnwys ardaloedd bwrdd iechyd Powys ac Aneurin Bevan

**E-bost**: SouthWalesEast.MedicalExaminersOffice@wales.nhs.uk

**Ffôn**: 02921 500799

# Geiriau Anodd

## Craffu

Mae craffu yn meddwl archwilio manylion ac amgylchiadau marwolaeth yn ofalus a manwl.